

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion Pwyllgor Adloniant, 05/11/19

Yn bresennol: Y Cyngorwyr E.R.Hughes (Cadeirydd), E.Lovgreen, M.Sarnacki, R.Thomas

1. Ymddiheuriadau

Y Cyngorwyr W.Ll.Davies, A.Hopcyn, D.L.Jones, K.Jones, J.W.Parry

2. Datgan Buddiant Personol

Dim

3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim

4. Sul y Cofio, 10fed o Dachwedd 2019

Dosbarthwyd rhestr waith ar gyfer Sul y Cofio. Roedd yr eitemau wedi eu lliwio'n felyn ar y rhestr wedi eu sortio, ond roedd angen gweithredu ar y gweddill.

Penderfynwyd derbyn y rhestr, ond nodi'r canlynol:

- (1) Bod angen i'r Clerc chwilio am 2 wirfoddolwr ychwanegol (Marshall) ar gyfer y diwrnod.**
- (2) Bod angen i'r Clerc wirio os oedd digon o wirfoddolwyr i rannu rhaglenni allan ar y diwrnod.**
- (3) Bod angen i'r Clerc wirio efo RWH Fabrications os oedd yr hyn oedd yn dal y torchau wedi ei osod.**

5. Noson Nadoligaidd y Cyngor, 5ed o Ragfyr 2019, a threfniadau eraill dros gyfnod y Nadolig

Dosbarthwyd rhestr waith ar gyfer Noson Nadoligaidd y Cyngor. Roedd yr eitemau wedi eu lliwio'n felyn ar y rhestr wedi eu sortio, ond roedd angen gweithredu ar y gweddill.

Nodwyd fod y cwmi Highline Installation wedi gosod rhai o'r goleuadau Nadolig, gan eu bod yng Nghaerarfion beth bynnag. Byddent yn dychwelyd i osod gweddill y goleuadau, ac i osod y goeden Nadolig ger yr "ice rink" ar ddydd Llun, yr 2il o Ragfyr.

Nodwyd ei fod yn gyfle i siopau aros yn agor yn hwytrach ar y noson ac y dylid ceisio hybu hynny mewn unrhyw bosteri ac yn y blaen sy'n mynd allan.

Penderfynwyd derbyn y rhestr, ond nodi'r canlynol:

- (1) Bod y Clerc yn ymgorffori unrhyw sylwadau ymarferol ynglŷn â'r noson i mewn i'r rhestr waith.**
- (2) Cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Adloniant am 5.15 p.m., ar ddydd Mawrth y 26ain o Dachwedd er mwyn edrych ar y rhestr waith eto cyn y noson.**
- (3) Bod angen i'r Clerc drefnu Cystadleuaeth i blant ysgol i lunio poster i hysbysebu'r Noson Nadoligaidd, gyda'r dyddiad cau am y posteri ar yr 22ain o Dachwedd. Gellid edrych ar y posteri wedyn yn y Pwyllgor Gwaith ar y 26 o Dachwedd.**

6. Adborth Cystadleuaeth Gerddi

Nodwyd fod cais wedi ei dderbyn i gymryd stoc - gan fod Clerc newydd mewn lle, ac i edrych o'r newydd ar amodau'r gystadleuaeth.

Penderfynwyd:

- (1) Rhoi'r adborth ar y Gystadleuaeth Gerddi gerbron cyfarfod o'r pwyllgor hwn yn y dyfodol agos er mwyn trafod yr holl agweddau ymarferol er enghraifft categori "highly commended", y posibilrwydd o gael lluniau o'r gerddi ar y noson, hysbysebu ac yn y blaen.**
- (2) Bod angen "speakers" cryfach ar gyfer Noson Tân Gwyllt 2020.**
- (3) Bod angen i'r Cyngor ystyried y defnydd o Facebook.**

Gorffennodd y cyfarfod am 5.40 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____